

Cyngor Proffesiynol

Rhieni Bygythiol

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Rhieni Bygythiol

Er bod rhaid pwysleisio mai lleiafrif bychan o rieni sy'n ymddwyn yn fygythiol, mae un rhiant yn ddigon i roi athro mewn sefyllfa anodd neu beryglus.

Nid yw'r broblem hon wedi ei chyfyngu i un math o ysgol nac i un sector a gall effeithio ar unrhyw aelod o staff.

Mae unrhyw ymddygiad gan riant sy'n gwneud i athro deimlo o dan fygythiad yn hollol annerbyniol. Gall:

- achosi straen a phryder i'r athro unigol
- achosi anaf corfforol
- gael effaith ar iechyd a morâl staff yr ysgol
- ei wneud yn anodd recriwtio staff i'r ysgol
- ei wneud yn anodd denu unigolion i'r proffesiwn yn y lle cyntaf
- amharu ar ddisgyblaeth yn yr ysgol trwy osod cynsail ddrwg i ddisgyblion sydd yn dystion i'r fath digwyddiad

Ni ddylai unrhyw athro ddiodeff yn dawel, ac anogir pob athro i godi'r mater ar unwaith gyda'i reolwr llinell.

Barn UCAC

Mae natur fygythiol yr ymddygiad yn amrywio, o ymosodiad geiriol neu ymwithgarwch (*over assertiveness*) i ymosodiad corfforol.

Ond beth bynnag yw "lefel" yr ymosodiad, cred UCAC yn gryf na ddylai unrhyw athro orfod wynebu sefyllfa o'r fath.

Cyfrifoldeb y Cyflogwr am Iechyd a Diogelwch

Mae hyn yn fater o iechyd a diogelwch ac, o'r herwydd, daw o dan reolaeth **Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1974**. Mae'r Ddeddf hon yn gosod cyfrifoldeb ar y cyflogwr (awdurdod lleol neu gorff llywodraethu) i sicrhau iechyd a diogelwch ei weithwyr cyflogedig a'r rheiny nad ydynt yn gyflogedig ganddo (disgyblion, mewn achos ysgol) wrth ymweld â'r gweithle.

Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau yr erlynnir y troseddwy'r hyn ond, dros y blynyddoedd, buont yn gyndyn iawn i erlyn rhieni ymosodol.

Yn bendant:

- mae gan yr awdurdod lleol (ALI) gyfrifoldeb am ddiogelwch y gweithwyr
- mae gan yr ysgolion rôl i gyflwyno gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol i'r ALI
- rhaid pwysu ar yr ALI i ymateb yn bwrpasol i ddigwyddiadau
- rhaid sicrhau bod gan bob ysgol bolisi clir ar y mater
- gall athro unigol wneud cwyn i'r heddlu hefyd

Dylai pob ALI fod wedi derbyn cyngor ar ddatblygu protocolau heddlu-ysgol a dylai ALI ac ysgolion fod wedi adolygu eu perthynas gyda'r heddlu yn dilyn y cyngor hwn. Dylai unrhyw bolisi ysgol i ymdrin â rhieni bygythiol fod yn gyson â'r protocolau hyn.

Polisi'r Ysgol

Dylai fod **polisi diogelwch cyffredinol** ym mhob ALI a dylai pob ysgol unigol gymryd camau positif i sicrhau diogelwch a llunio **cynllun gweithredu** ar gyfer ymdrin â rhieni bygythiol.

Mae'n arfer da i gael trafodaeth gyda'r staff am faterion diogelwch. Dylai'r cynllun gweithredu gynnwys manylion am:

- Asesiad risg:** rhaid gwneud asesiad risg (does dim angen i hwn fod yn gymhleth). Gofynnwch y cwestiynau:
 - Beth yw'r risg, pwy sydd yn agored i risg a faint o risg sydd?
 - Pa aelodau o'r staff sydd fwyaf tebygol o wynebu'r risg yma ac ymhle?
 - Pa fath o gamau diogelwch sydd ar waith yn barod?
 - Beth yw'r ffordd orau o weithredu i leihau'r risg a sut gellir cadw llygad ar y camau hyn ac adrodd yn ôl ar ddatblygiadau?
- Mynediad i'r adeilad:** mae angen rhoi ystyriaeth glir i reoli mynediad i'r adeilad/safle
- Cofnodi digwyddiadau:** mae angen dull ffurfiol o gofnodi digwyddiadau, er mwyn cadw tystiolaeth a hwyluso unrhyw erlyniadau a allai ddigwydd yn y dyfodol
- Sut i ymateb yn ystod digwyddiad:** mae angen nodi camau clir i'w cymryd petai riant yn troi'n fygythiol e.e. gwahodd y riant i drafod mewn ystafell arall sydd i ffwrdd oddi wrth y disgyblion (ni ddylai aelod o staff yr

ysgol fynd ar ei ben ei hun i ystafell gyda rhiant bygythiol ar unrhyw gyfrif); gwahodd y rhiant i drafod gydag aelod o'r uwch dîm rheoli; gofyn i'r person i adael yr adeilad, ac os yn briodol, galw'r heddlu i safle'r ysgol

- d) **Enwau cyswllt:** dylid nodi gyda phwy i gysylltu yn ystod/ar ôl digwyddiad neu mewn sefyllfa o argyfwng (enw cyswllt yn yr ysgol, yr ALL, yr heddlu)
- dd) **Camau dilynol:** dylid nodi'r camau dilynol i'w cymryd (e.e. gwaharddiad o'r adeilad am gyfnod penodol; sut i hysbysu'r rhiant; camau cyfreithiol)
- e) **Cefnogaeth i'r dioddefwr:** mae angen cefnogaeth ar yr aelodau o staff sydd wedi wynebu rhiant bygythiol. Dylid nodi manylion am y gefnogaeth sydd ar gael, e.e. gwasanaeth cyfreithiol, gwasanaeth cynghori, gofal iechyd galwedigaethol

Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol o gynllun gweithredu'r ysgol.

Gwaharddiad

Mae hawl gan y Pennaeth i benderfynu pwy sy'n cael dod ar dir yr ysgol. Eiddo preifat yw ysgol a gellir trin unrhyw berson sydd ar dir yr ysgol heb ganiatâd yn dresbaswr. Er bod gan rieni'r hawl i fynd a dod, mae disgwyl iddynt ymddwyn mewn modd derbyniol. Oni ddigwydd hyn:

- a) gall y Pennaeth ysgrifennu at riant yn ei rybuddio y bydd yn cael ei wahardd o'r ysgol oni fydd ei ymddygiad yn gwella
- b) dylid nodi mai trwy wahoddiad neu gyda chaniatâd ymlaen llaw yn unig y caiff y rhiant ddod ar dir yr ysgol a bod angen iddo/iddi ddanfôn llythyr yn rhoi o leiaf diwrnod o rybudd ymlaen llaw neu mewn argyfwng yn ffonio'r Pennaeth (neu'r Dirprwy yn ei h/absenoldeb) i ofyn am ganiatâd
- c) dylai'r Pennaeth anfon y llythyr yn syth ar ôl digwyddiad a dylid sicrhau bod modd ei dracio a/neu fod llofnod wrth dderbyn y llythyr yn ofynnol
- ch) dylid sicrhau bod gan y rhiant amser i ymateb/apelio, cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol
- d) cofier bod gan Bennaeth yr ysgol bwerau dirprwyedig i orchymyn rhiant i adael tir yr ysgol

- dd) mae hawl defnyddio “grym rhesymol” ond dylid osgoi hynny heblaw yn yr argyfyngau mwyaf difrifol; **cyngor UCAC mewn sefyllfa o’r fath fyddai galw’r heddlu**
- e) dylid anfon copi o bob llythyr, er gwybodaeth, at Gadeirydd y Llywodraethwyr, yr ALL ac at yr heddlu.
- f) gellir hefyd wneud cais i’r Llys am waharddiad

Hunanamddiffyniad

Os yw’r rhiant yn bygwth anafu’r athro neu ddifrodi eiddo’r athro, yna gall yr athro gymryd camau rhesymol i rwystro hynny rhag digwydd. Os oes bygythiad geiriol neu amheuaeth o fgythiad corfforol:

- a) dylai’r athro ymadael â’r ystafell a mynd i nôl athro arall yn ddi-oed
- b) dylid gofyn i’r person adael y safle
- c) dylid gweithredu polisi’r ysgol ynghylch gwahardd rhieni o’r safle

Os yw rhiant yn ymosod ar athro, mae’n naturiol i’r athro amddiffyn ei hun (hunanamddiffyniad). Gall athro ddefnyddio grym rhesymol i amddiffyn ei hun ac i amddiffyn y plant a staff yr ysgol, rhag ymosodiad corfforol. Y mae dyletswydd ar i’r athro amddiffyn y plant.

Mewn sefyllfaoedd o’r athro yn amddiffyn ei hun yn gorfforol, rhoddir ystyriaeth i nifer o ffactorau er mwyn penderfynu a oedd y grym a ddefnyddiwyd yn rhesymol o dan y fath amgylchiadau:

- a) difrifoldeb y sefyllfa a difrifoldeb yr ymosodiad
- b) dulliau eraill oedd ar gael i’r athro amddiffyn ei hun, gan gynnwys cilio o’r ymosodiad
- c) a wnaeth yr hunanamddiffyniad barhau ar ôl i’r ymosodiad neu’r bygythiad i ymosod orffen?
- ch) a oedd yr athro yn credu ar y pryd bod ymosodiad yn mynd i ddigwydd yr eiliad honno?

Mewn achosion o’r fath, disgwylir i’r athro ymddwyn yn onest ac yn rhesymol i amddiffyn ei hun. Mae gan athrawon eraill yn yr ysgol gyfrifoldeb i sicrhau nad yw’r rhiant bygythiol yn ymosod ar athro, e.e. trwy nôl aelod o’r Tîm Rheoli.

Cyngor UCAC: lle bo’n bosibl, dylid gadael yr ystafell yn ddi-oed i fynd i nôl athrawon eraill a dylai’r Uwch Dîm Rheoli alw’r heddlu. Petai’r athro mewn gofal dosbarth ar y pryd, rhaid rhoi ystyriaeth i ddiogelwch y plant, e.e. danfon plentyn i nôl aelod o’r Uwch Dîm Rheoli yn hytrach na

gadael y dosbarth. Dylai'r ysgol gofnodi pob math o ymosodiad a rhoi gwybod i'r ALI am bob digwyddiad. Dylid cofnodi'r cyfan a ddigwyddodd yn fanwl.

Dylai athrawon gael eu hyfforddi ar sut i ymdrin â sefyllfaoedd anodd yn heddychlon a sut i amddiffyn eu hunain yn gyfreithlon rhag ymosodiadau posibl.

Mae UCAC yn pwysu ar ALI i baratoi HMS addas ar hyn.

Ymdrin â Phlentyn y Rhiant

Ni ddylid dial ar blentyn am ymddygiad y rhiant. Yn gyfreithiol, nid oes hawl i wahardd plentyn am ymddygiad y rhiant/rhieni. Os bydd y plentyn yn ymddwyn yn fygythiol neu'n groes i reolau'r ysgol, yna dylid dilyn trefn Polisi Disgyblu'r ysgol. Os yw'r athro'n teimlo dan fygythiad am ei fod yn dysgu'r plentyn, dylid ceisio symud y plentyn hwnnw i ddsbarth arall.

Defnyddio'r Gyfraith

Dyma grynoded o gamau cyfreithiol a Deddfau sydd ar gael i ddiogelu gweithwyr mewn ysgol pan fydd ymddygiad rhiant yn fygythiol. Bydd rhai camau ond ar gael gyda chefnogaeth yr ALI.

1. Arfau Bygythiol

O dan **Adran 139 ac 139A Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988** fel y diwygiwyd gan **Adran 1 Deddf Arfau Ymosodol 1996**:

- mae'n anghyfreithlon i gludo arf ymosodol, e.e. cylllell i dir ysgol
- mae Adran 139B o'r Ddeddf yn caniatáu i'r heddlu ddod ar dir yr ysgol i chwilio am arfau (mae hyn yn cynnwys unrhyw eitem wedi'i addasu ar gyfer niweidio person)
- mae cylllell boced â llafn 3 modfedd/7cm neu lai yn dderbyniol o dan y gyfraith, ond mae hawl gan yr ysgol i osod ei waharddiad ei hun ar gyllyll poced

Cyngor UCAC: dylid gwahardd pob math o gyllyll poced beth bynnag fo'u maint. Yn gyffredinol os oes amheuaeth bod gan riant neu ddisgybl arf ar dir yr ysgol, dylai'r athro gysylltu â'r Pennaeth a'u hysbysu mai cyngor UCAC fyddai i alw'r heddlu yn ddi-oed. Ni ddylid ceisio tynnu'r gyllell (arf) oddi ar y disgybl neu'r rhiant. Gallai hynny fod yn eithriadol o beryglus.

2. Gwaharddiad

O dan Adran 547 Deddf Addysg 1996, y mae'r sawl sy'n achosi neu'n caniatáu niwsans neu gynnwrf ar eiddo'r ysgol (gan gynnwys y buarth a'r cae chwarae) ac sydd yn achosi anhwylystod i'r rhai sy'n defnyddio'r eiddo yn gyfreithlon, yn troseddu a gallant gael eu dirwyo yn Llys yr Ynadon. Nid oes raid i'r troseddwr fod yn dresbaswr. Mae gofyniad tebyg yn bod mewn colegau o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992 Adran 85A.

Gellir hefyd cael gwaharddiad llys i atal trosedd rhag digwydd ac i wahardd rhywun bygythiol rhag cael mynediad ar eiddo'r ysgol. Fel arfer dylai pennaeth roi rhybudd priodol i'r troseddwr cyn ceisio gwaharddiad llys, os yw'n ymarferol rhoi rhybudd iddo/iddi.

Os yw rhiant yn parhau i ddod i'r ysgol, er gwaethaf gwaharddiad, yn niwsans neu'n creu trafferth, gallai fod yn agored i gael ei erlyn o dan **Adran 547 o Ddeddf Addysg 1996**, fel y'i diwygiwyd gan **Adran 206, Atodiad 20 o Ddeddf Addysg 2002**.

Yr ALI, ar ran yr ysgol, sy'n gyfrifol am weithredu'r Ddeddf hon, a gall y gosb fod yn ddirwy o hyd at £500.

3. Gorchymynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Gellir defnyddio **Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998** i osod gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol (GYG). Gellir gosod GYG:

- am ymddygiad sydd wedi achosi, neu gallai achosi, aflonyddwch, braw neu ofid
- pan fo angen diogelu eraill yn y cyffiniau rhag ymddygiad cyffelyb

Gall GYG barhau am 2 flynedd o leiaf, er y gellir ei ddileu yn gynt trwy gytundeb ar y ddwy ochr. Ceir cosb ariannol a/neu gyfnod yn y carchar am dorri'r gorchymyn.

Yr ALI neu'r Corff Llywodraethu fyddai'n cymryd y camau cyfreithiol perthnasol ar ran yr ysgol.

4. Cosbi am Ddifrod i Eiddo

Mewn achos o riant yn difrodi eiddo'r ysgol neu eiddo athro, gellir dwyn achos o dan **Ddeddf Difrod Troseddol 1971**:

- cynhelir yr achos mewn Llys Ynadon neu Lys y Goron yn dibynnu ar natur y difrod

- mae euogfarn yn golygu cosb o ddirwy a/neu gyfnod yn y carchar a thalu iawndal am y difrod a wnaed
- os gwnaethpwyd y difrod gyda'r bwriad o beryglu bywyd, gall y gosb fod yn oes yn y carchar

Cofiwch nad yw ALI yn derbyn cyfrifoldeb am geir athrawon ar y buarth neu y tu allan i'r safle.

5. Dwyn achos yn dilyn bygythiadau

Mewn achos o riant yn bygwth athro neu grŵp o athrawon, gellir dwyn achos troseddol neu achos preifat yn ei erbyn am iawndal, o dan ddarpariaeth **Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddwch 1997**:

- gall y gosb gynnwys dirwy, cyfnod yn y carchar neu orchymyn atal (*restraining order*)
- mae Adran 2 y Ddeddf yn nodi mai trosedd yw ymddwyn (ar fwy na dau achlysur) mewn modd sy'n gyfwerth ag aflonyddu, gan achosi braw neu ofid
- mae Adran 4 yn cyfeirio at drosedd mwy difrifol pan roddir person mewn sefyllfa ble mae arno ofn trais (eto ar fwy na dau achlysur)

6. Troseddau Trefn Gyhoeddus

Ceir darpariaeth debyg o dan **Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986** ond dim ond unwaith y mae'n rhaid i'r drosedd ddigwydd:

- mae Adran 5 y Ddeddf yn ymwneud â mân ddigwyddiadau o anhrefn cyhoeddus a gyflawnir gan riant yn yr ysgol, neu y tu allan i'r ysgol, sy'n achosi aflonyddwch, braw neu ofid
- ceir ffurf fwy difrifol o anhrefn cyhoeddus yn Adran 4, pan ofnir trais
- mae Adran 3 o'r Ddeddf hon, a elwir yn affrae (*affray*), yn digwydd pan fo rhiant yn defnyddio neu'n bygwth trais anghyfreithlon a fyddai'n achosi person rhesymol i bryderu am ei ddiogelwch; ni ellir cyflwyno bygythiad felly gyda geiriau yn unig

7. Dwyn Cyhuddiad o Ymosodiad

- mewn achos o riant yn ymosod yn gorfforol ar athro ac yn achosi mân anaf, gellir dwyn cyhuddiad o ymosodiad o dan **Adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988**
- os yw athro yn derbyn anaf difrifol, megis cleisio cas neu friwiaw sydd angen gofal meddygol, gellir dwyn cyhuddiad yn erbyn y rhiant o dan **Adran 47 Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861**

(Ar gyfer pwyntiau 3,4,5 a 6, uchod os oedd gogwydd hiliol i'r weithred, bydd y gosb yn uwch o dan **Adrannau 29-32 Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998** am fod trosedd o'r fath yn ddifrifol iawn.)

8. Deddf Cyfathrebu 2003

O dan Ddeddf Cyfathrebu 2003, mae'n drosedd i unrhyw un anfon neges trwy ddull electroneg sy'n ddifrifol dramgwyddus neu sy'n anweddus, yn anllad neu'n fgythiol.

Y mae hyn yn fater difrifol, yn enwedig yng nghyd-destun cyfryngau cymdeithasol. Mae'r llysoedd yn cymryd camau i ddiogelu pobl mewn amgylchiadau o'r fath.

9. Hawlio lawndal

Mae hwn yn opsiwn i athro a wynebodd ymosodiad. Gall yr athro hawlio iawndal o ganlyniad i'r ymosodiad naill ai:

- trwy achos sifil
- trwy yswiriant y cyflogwr
- trwy'r Awdurdod lawndal am Niweidiau Troseddol
- neu yn y llysoedd troseddol megis Llys yr Ynadon

I gloi

Y mae'r cyfreithiau sy'n bodoli i amddiffyn athrawon a staff ysgolion yn rhai grymus a phellgyrhaeddol ac, os ymosodir ar athro gan riant neu gan unrhyw un arall mewn ysgol, ni ddylai staff yr ysgol neu'r athro, ymatal rhag defnyddio'r gyfraith i ddiogelu ei hun.

I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:

- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru
- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru

Yn ogystal, mae modd cysylltu â:

- Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, dilwyn@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Is-ysgrifennydd Cyffredinol a Swyddog Polisi, rebecca@ucac.cymru

Diweddarwyd: Awst 2021

Atodiad 1

Enghraifft o Ffurflen Cofnodi Achos o Ddigwyddiad efo Rhieni Bygythiol (I lawrlwytho copi o'r ffurflen hon, [cliciwch yma](#))

Ysgol neu Sefydliad:	
-----------------------------	--

Dyddiad y digwyddiad:	
------------------------------	--

Disgrifiad o'r digwyddiad

A oedd tystion i'r digwyddiad?	Oedd/Nag oedd
A hysbyswyd y Corff Llywodraethol?	Do/Naddo
A hysbyswyd yr heddlu?	Do/Naddo

Nodwch unrhyw gamau pellach i'w cymryd



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru